# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.K. Howell and F. Akhtar

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorwyr A. Fox ac E. Williams;

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:-**
Mr E. Jones – Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin;
A. Morgan – Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd;
Mr. M. Price – Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
A. Evans, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 9.30 am - 5.25 pm**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - THE BLACK MOUNTAIN INN, 126 HEOL Y MYNYDD, BRYNAMAN UCHAF, RHYDAMAN SA18 1AN**

Hysbyswyd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeiswyr wedi gofyn am ohirio ystyried eu cais tan ddyddiad diweddarach.

**PENDERFYNWYD cytuno â'r dymuniad i ohirio ystyried y cais.**

**3. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU, LLANARTHNE,SIR GAERFYRDDIN, SA32 8HG**

Gadawodd yr Is-bwyllgor Neuadd y Sir, Caerfyrddin, am 9.35 a.m. ac ailymgynnull am 11.15 a.m. ar y safle yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, gan fynd heibio nifer o eiddo gwrthwynebwyr ar y ffordd, er mwyn gweld yr eiddo a chael cyfle i archwilio'r cyfleusterau mewnol ac allanol. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 1.30 p.m. i ystyried y cais.

Rhoddodd y Cyfreithiwr Cynorthwyol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod.

Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor bod cais wedi dod i law gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru am drwydded safle mewn perthynas â'r safle uchod i ganiatáu'r canlynol.

> Dramâu, ffilmiau, digwyddiadau chwaraeon dan do, bocsio a reslo, perfformio dawns, ac unrhyw beth tebyg, o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 08:00 a 23:00.
>
> Cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth a recordiwyd a chyflenwi alcohol o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 08:00 ac 01:00.
>
> Lluniaeth hwyrnos o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 23:00 ac 01:00

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-
Atodiad A – copi o'r cais
Atodiad B – sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
Atodiad C – sylwadau Heddlu Dyfed-Powys
Atodiad D – sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
Atodiad E – sylwadau gan bobl eraill.

Â chytundeb yr holl bartïon, dosbarthwyd copïau o ddogfennau ychwanegol i'r Is-bwyllgor a oedd yn cynnwys newidiadau yn yr oriau y gwnaed cais amdanynt ac amodau ychwanegol a gynigiwyd gan yr Awdurdodau Cyfrifol a chynllun yn nodi lleoliadau eiddo'r gwrthwynebwyr mewn perthynas â'r safle/eiddo yn y cais.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad B i'r adroddiad ac yn yr Amodau Trwyddedu Arfaethedig Drafft y cyfeirir atynt uchod. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.
Cyfeiriodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys at ei sylwadau, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad C i'r adroddiad ac yn yr Amodau Trwyddedu Arfaethedig Drafft y cyfeirir atynt uchod. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd at ei sylwadau fel y manylwyd arnynt yn Atodiad D i'r adroddiad ac yn yr Amodau Trwyddedu Arfaethedig Drafft y cyfeirir atynt uchod. Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Wedyn, cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan rai o'r bobl eraill a oedd yn mynegi pryderon ac/neu'n gwrthwynebu caniatáu'r drwydded safle am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Atodiad E.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.
Wedyn bu i'r ymgeiswyr ymateb i'r pryderon a'r materion a godwyd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Yna bu i'r Is-bwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, fel y'i diwygiwyd, a hynny'n unol â'r amodau trwyddedu ychwanegol roedd yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi cytuno arnynt.**

**Y RHESYMAU:-**
Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig a wnaed, yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Roedd hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref, a'r rheiny a oedd wedi'u cyfeirio at ei sylw gan y partïon eraill.
Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd Trwydded Safle eisoes ar gael ar gyfer rhan o'r ardal yr oedd y cais presennol yn cyfeirio ati (er nid ar gyfer yr ardal gyfan).
2. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau mewn ardaloedd yn yr awyr agored y tu fewn i gwmpas y cais;
3. Ni chafwyd erlyniadau na chamau gorfodaeth yn flaenorol gan yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â'r safle hwn.
4. Nid oedd yr Awdurdod Trwyddedu wedi cael unrhyw gwynion mewn perthynas â'r safle hwn;
5. Nid oedd yr Awdurdod Trwyddedu wedi cael unrhyw atgyfeiriadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol eraill mewn perthynas â'r safle hwn;
6. Roedd yr Ymgeiswyr wedi newid eu cais ac yn cyflwyno cais am drwydded safle a oedd yn caniatáu cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth a recordiwyd a chyflenwi alcohol mewn mannau dan do rhwng 08:00 ac 01:00, ac yn yr awyr agored rhwng 08:00 a 23:00;
7. Uchafswm nifer y bobl ar gyfer digwyddiadau ar y safle fyddai 5,000;
8. Ni wnaeth yr awdurdodau cyfrifol wrthwynebu mewn egwyddor i ganiatáu'r cais ac roeddynt yn credu y gallai'r amcanion trwyddedu gael eu hyrwyddo'n ddigonol gan amodau ar y drwydded safle;
9. Roedd yr Ymgeiswyr wedi cytuno i'r amodau hynny gael eu hychwanegu at y drwydded.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Nododd yr Is-bwyllgor y pryderon a fynegodd y trigolion lleol mewn perthynas ag effaith caniatáu'r cais ar y gymuned leol o ran cerddoriaeth uchel a sŵn arall yn dod o'r eiddo trwyddedig, mwy o draffig ar y ffyrdd lleol, goryrru a phroblemau eraill yn ymwneud â thraffig, a chynnydd mewn troseddau ac anhrefn ar y safle trwyddedig ac o'i gwmpas. Derbyniodd yr Is-bwyllgor fod pryderon y trigolion lleol yn rhai diffuant.

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r amodau trwyddedu y cytunwyd arnynt rhwng yr Ymgeisydd a'r Awdurdodau Cyfrifol. Nodwyd eu bod yn cynnwys darpariaethau manwl o ran systemau teledu cylch cyfyng, goruchwylwyr drysau a gwerthu alcohol. Roeddynt hefyd yn cynnwys amodau ynghylch y lefelau sŵn a fydd yn dod o gyngherddau awyr agored, yn ogystal â gorfod cyflwyno a chytuno ar gynllun rheoli sŵn â'r awdurdod lleol cyn pob cyngerdd awyr agored. Yn ogystal, roedd yr amodau y cytunwyd arnynt hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd:-

(1) Paratoi Cynllun Rheoli Digwyddiad ar gyfer pob digwyddiad a oedd yn cynnwys darparu adloniant rheoledig yn yr awyr agored neu mewn strwythur dros dro ar y safle;

(2) Cyflwyno'r Cynllun Rheoli Digwyddiad i adain Iechyd yr Amgylchedd a'r adain Trwyddedu ar gyfer digwyddiadau a gynhelir y tu allan i'r ardal sydd wedi'i lliwio, ac ar gyfer digwyddiadau y tu fewn i'r ardal sydd wedi'i lliwio a fwriedir ar gyfer mwy na 2,500 o bobl, a hynny o leiaf 4 mis cyn cynnal y digwyddiad (oni bai bod y cyfnod hwn yn cael ei leihau drwy gytundeb â'r awdurdod trwyddedu) i'w gymeradwyo ac er mwyn cynnal y digwyddiadau hyn yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd.

Byddai'r Awdurdod yn disgwyl i'r Cynlluniau Rheoli Digwyddiad hyn gynnwys, ymysg elfennau eraill, gynllun rheoli traffig, cynllun rheoli sŵn, asesiadau risg iechyd a diogelwch, polisi alcohol a chyffuriau a manylion ynghylch y trefniadau diogelwch a stiwardio, er enghraifft. Mae'r amodau hyn y cytunwyd arnynt yn lleddfu'r pryderon a fynegwyd gan y trigolion lleol i raddau helaeth.

Er bod rhai o'r trigolion lleol wedi darparu tystiolaeth ynghylch clywed digwyddiadau'n cael eu cynnal ar y safle, goryrru a phroblemau eraill yn ymwneud â thraffig yn yr ardal leol a chlywed am ddathliadau priodas gwyllt yn yr Ardd Fotaneg, prin oedd y dystiolaeth o'r problemau blaenorol. Nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth hon yn ddigonol i ddangos bod barn yr Awdurdodau Cyfrifol ar y mater hwn yn anghywir.

Oherwydd diffyg tystiolaeth i ddangos bod gweithgareddau trwyddedig yn yr Ardd Fotaneg yn y gorffennol wedi cael effaith negyddol ar y gymuned leol, neu gyngor arbenigol i ddangos y bydd natur, lleoliad a hyd y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig, yn ôl yr hyn sy'n debygol, yn achosi niwsans cyhoeddus neu gynnydd mewn troseddau ac anhrefn, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai gwrthod y cais ar sail pryderon y trigolion yn anghymesur ac yn amhriodol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, ar sail y dystiolaeth a roddwyd, na fyddai caniatáu'r cais, yn amodol ar yr amodau trwyddedu y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol, yn tanseilio unrhyw un o'r amcanion trwyddedu. Hefyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon fod yr amodau hynny yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac yn ymateb cymesur i natur, lleoliad a hyd y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig.

**Y CADEIRYDD** **DYDDIAD**